# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 2AIL RHAGFYR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 22 Tachwedd 2024)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Gareth Tudor Jones

Gwynfor Owen

Elfed Williams (Cadeirydd)

Arwyn Herald Roberts (Eilydd)

## Aelodau Lleol

Y Cynghorydd Dylan Fernley a’r Cynghorydd Nigel Pickavance

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 10

'City Sports and Cocktail Bar', 20/21 Canolfan Menai, Bangor, LL57 1DN

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **2/12/24** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO –**<br>**City Sports & Cocktail Bar Ltd, 20/21 Canolfan Menai, Bangor, Gwynedd LL57 1DN** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1 CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer City Sports & Cocktail Bar Ltd, 20/21 Canolfan Menai, Bangor, Gwynedd LL57 1DN. Mae'r cwmni yn ymgeisio am drwydded eiddo ar gyfer Bar Chwaraeon ar y Llawr Gwaelod sy'n cynnwys amryfal Sgriniau Teledu, Byrddau Pŵl, Byrddau Dartiau Rhyngweithiol a Pheiriannau Hap Chwarae. Ar yr ail lawr bydd Bar Coctel a Gwirodydd ynghyd â seddau arbennig a mannau cymdeithasu, Bythau Tynnu Lluniau ac ardal Ddawnsio.

1.2 Cyflwynir y cais mewn perthynas â Dramâu dan do a'r tu allan, Ffilmiau dan do, Digwyddiadau Chwaraeon Dan Do, Adloniant Bocsio a Reslo dan do a'r tu allan, Cerddoriaeth Fyw dan do a'r tu allan, Cerddoriaeth wedi'i recordio Dan do a'r Tu Allan, Perfformiadau Dawns Dan Do, Lluniaeth Hwyr yn y Nos dan do a'r tu allan a Chyflenwi Alcohol ar ac oddi ar yr Eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Gweler y tabl isod am fanylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedu:

### Oriau Agor:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Llun | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Iau | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - | 04:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - | 04:00 |

### Gweithgareddau Trwyddedig:

**Dramâu Dan do a'r Tu Allan**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Llun | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Iau | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - | 04:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - | 04:00 |

**Ffilmiau: Dan Do**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Llun | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Iau | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - | 04:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - | 04:00 |

**Digwyddiadau Chwaraeon Dan Do:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Llun | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Iau | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - | 04:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - | 04:00 |

**Adloniant Bocsio neu Reslo: Dan Do a'r Tu Allan**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Llun | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Iau | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - | 04:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - | 04:00 |

**Cerddoriaeth Fyw: Dan Do a'r Tu Allan**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Llun | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Iau | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - | 04:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - | 04:00 |

***Dim chwarae cerddoriaeth fyw y tu allan ar ôl 9pm.***

**Cerddoriaeth wedi'i Recordio: Dan do a'r Tu Allan**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Llun | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Iau | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - | 04:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - | 04:00 |

***Dim chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio y tu allan ar ôl 9pm.***

**Perfformiadau Dawns: Dan Do**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Llun | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Iau | 11:00 | - | 03:00 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - | 04:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - | 04:00 |

**Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos: Dan do a'r Tu Allan**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 23:00 | - | 02:00 |
| Dydd Llun | 23:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mawrth | 23:00 | - | 02:00 |
| Dydd Mercher | 23:00 | - | 03:00 |
| Dydd Iau | 23:00 | - | 03:00 |
| Dydd Gwener | 23:00 | - | 04:00 |
| Dydd Sadwrn | 23:00 | - | 04:00 |

**Cyflenwi Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - | 01:30 |
| Dydd Llun | 11:00 | - | 01:30 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - | 01:30 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - | 02:30 |
| Dydd Iau | 11:00 | - | 02:30 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - | 03:30 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - | 03:30 |

## 2. Datganiad Polisi Trwyddedu Gwynedd

### 2.1 Noda'r polisi:

Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau dan y Ddeddf, dylai'r awdurdod trwyddedu geisio hyrwyddo'r **pedwar amcan** trwyddedu a gynhwysir yn y Ddeddf gan sicrhau eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd.

Y pedwar amcan yw:

- **Atal trosedd ac anhrefn**
- **Diogelwch y cyhoedd**
- **Atal niwsans cyhoeddus**
- **Amddiffyn plant rhag niwed**

Yr amcanion trwyddedu yw'r prif ystyriaethau sydd angen eu hystyried gan yr awdurdod trwyddedu wrth benderfynu ar gais a wneir dan y Ddeddf, a bydd unrhyw amodau cysylltiedig yn rhai priodol a chymesur i gyflawni'r amcanion trwyddedu.
O fewn cyd-destun hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, disgwylia'r Awdurdod Trwyddedu i ymgeiswyr gynnig amodau trwyddedu i leddfu'r effaith y gall eu heiddo ei gael ar iechyd a lles eu cwsmeriaid, y gymdogaeth ac ar y gymuned yn ehangach.

2.2

Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi sylw i ystyriaethau ehangach sydd yn effeithio ar fwynderau unrhyw ardal. Mae'r rhain yn cynnwys sbwriel a baeddu, sŵn, trosedd ar y stryd a chapasiti isadeiledd y sir, adnoddau ac adnoddau'r heddlu i ymdopi â'r mewnlifiad o ymwelwyr, yn enwedig yn ystod y nos.

2.3 O safbwynt atal niwsans cyhoeddus, mae'r Polisi yn datgan:

Bod yr awdurdod trwyddedu wedi ymrwymo i sicrhau nad yw mwynderau ac amgylchedd byw a gweithio pobl eraill sydd yn byw a gweithio yn ardal yr eiddo trwyddedig dan fygythiad.

Wrth ystyried effaith bosib eiddo trwyddedig ar yr ardal gyfagos, bydd yr awdurdod yn ystyried yr hyn a ganlyn:

- y gweithgareddau trwyddedig y gwneir cais amdanynt
- yr oriau gweithredu y gwneir cais amdanynt
- capasiti'r eiddo
- cymeriad yr ardal, ac
- agosrwydd at breswylwyr lleol.

Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amodau ar eiddo trwyddedig na fyddai deilydd y drwydded yn gallu eu rheoli'n uniongyrchol, nac ar faterion nad ydynt yn gysylltiedig ag ardal gyfagos yr eiddo.

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Bydd gan yr eiddo systemau Teledu Cylch Cyfyng o ansawdd uchel gyda'r gallu i gadw recordiadau am o leiaf 31 diwrnod a'u bod ar gael ar gais rhesymol un ai drwy ddyfais storio electronig neu drwy uwchlwytho drwy gysylltiad gyda'r Heddlu.
- Bydd pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant ar y weithdrefn 'Her 25' y byddwn yn ei mabwysiadu a byddwn yn gadarn wrth ei gweithredu.
- Bydd staff diogelwch sydd wedi cofrestru â'r SIA yn cael eu defnyddio ar nos Wener a nos Sadwrn ac ar nosweithiau eraill pan fydd y rheolwyr eu hangen.
- Bydd o leiaf un aelod o'r staff blaen tŷ ar y drws yn gwisgo camera corff ynghyd ag o leiaf un aelod o'r staff diogelwch mewnol a bydd gan y rheolwr hefyd gamera corff.
- Bydd yr eiddo'n cael ei gynnal a'i gadw i lefel uchel o lanweithdra a bydd gwiriadau arferol yn cael eu cynnal i sicrhau bod yr amodau yn ddiogel ac yn lân yn yr eiddo.
- Bydd staff yn cael eu hyfforddi am 'ASK FOR ANGELA'.
- I leihau niwsans cyhoeddus byddwn yn sicrhau bod lefelau'r gerddoriaeth yn cael eu cadw i lefel briodol fel y diffinnir gan argymhellion yr asesiad sŵn acwstig.
- Bydd polisi 'Her 25' caeth ar waith gyda'r holl staff yn ymwybodol / yn ymgymryd â'r hyfforddiant.

**Gweler rhan M o'r cais am y rhestr lawn o fesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.**

## 3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Pryderon a sylwadau gan y cyhoedd | Pryderon a sylwadau |
| Iechyd yr Amgylchedd | Pryderon a'r amodau a gynigir |
| Heddlu Gogledd Cymru | Sylwadau |
| Cynllunio | Sylwadau |

### 3.1 Gwrthwynebiad gan Aelod o'r Cyhoedd:

3.2 Mae aelod o'r cyhoedd wedi gwrthwynebu ar sail fod yr eiddo wedi ei leoli drws nesaf i siop farbwr ar lefel y stryd gyda fflat i fyny'r grisiau sydd ar hyn o bryd yn gartref i deulu gyda dau blentyn ifanc dan chwech oed. Codwyd pryderon am Gerddoriaeth Fyw h.y. Set fyw gan DJ, bandiau yn chwarae a cherddoriaeth gefndir ar ddwy lefel y lleoliad a sut fydd y busnes yn delio gyda llygredd sŵn. Mae tarfu oherwydd sŵn yn hwyr yn y nos yn bryder difrifol. Nid yw gweiddi a sgrechian y tu allan i gartref rhywun yn helpu plant i deimlo'n ddiogel.

Dywed cod ymarfer Rhentu Doeth Cymru fod gan denantiaid yr hawl i fwynhau eu heiddo rhent mewn tawelwch.

Mae'r gwrthwynebydd wedi gofyn os yw rheolwyr y bar wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r trefniadau ar gyfer mynediad a gadael yr eiddo – ac mae wedi gofyn os bydd rhwystrau i reoli'r cwsmeriaid. Nodir os yw'r cwsmeriaid yn mynd i fewn i'r lleoliad o'r dde neu o'r chwith, bydd gan hyn effaith ar y tenantiaid sy'n byw yn y fflatiau ger yr adeilad. O edrych ar y lleoliad o'r blaen, os oes mynediad o'r ochr dde yna mae hyn yn golygu y byddai'r ciw ger ffenestr fawr y siop a'r drws ffrynt i'r fflat uwchben. Dylid ystyried lleoli rhwystr caled gan ei osod hyd at 2m i ffwrdd o'r adeilad preswyl i sicrhau bod cwsmeriaid (fydd dan ddylanwad alcohol) ddim yn gallu gwneud dŵr neu ysmygu yn y gornel ger drws ffrynt y fflat gan beidio pwyso yn erbyn ffenestr y siop. Roedd y gwrthwynebydd yn bryderus y byddai cynnydd mewn ymddygiad gwrth gymdeithasol, ac fe allai unrhyw wrthdaro achosi difrod i'r siop. Codir cwestiynau am leoliad y camera diogelwch i gyfeiriad cornel yr eiddo preswyl a'r siop i alluogi i weithwyr diogelwch yr eiddo ddelio â materion yn brydlon.

**Mae'r ddogfen ynghlwm i chi weld y gwrthwynebiad llawn.**

**3.3 Sylwadau a phryderon Iechyd yr Amgylchedd**

Mae gan Iechyd yr Amgylchedd bryder am yr oriau arfaethedig a'r cais i gael cerddoriaeth tu allan tan 21.00 a'r bwriad i gael ardal eistedd allanol. Yr unig ardal allanol i'r safle yma yw'r Stryd Fawr a'r briffordd gyhoeddus, nid oes gan yr eiddo ardal allanol yn ei gwrtil a ellid ei drwyddedu dan y Ddeddf Drwyddedu.

Byddai'n rhaid i'r cwmni wneud cais am drwydded gan y Gwasanaeth Priffyrdd i osod cadeiriau a byrddau ar y stryd. Nid yw'r gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn cefnogi i gerddoriaeth gael ei chwarae y tu allan oherwydd yr effaith ar drigolion cyfagos, a'r eiddo preswyl sydd yn union drws nesaf ar y Stryd Fawr. **Gweler y map atodol** gan Iechyd yr Amgylchedd sy'n dangos lleoliad yr eiddo cyfagos gyda chylch du, ac mae lleoliad eiddo'r bar wedi ei nodi gyda chylch gwyn.
Roedd yr adroddiad sŵn a gyflwynwyd fel rhan o'r cais cynllunio yn datgan na ddylid gosod unrhyw uchelseinyddion y tu allan.

Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle rhwng y Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'r ymgeisydd mewn perthynas â'r cais cynllunio. Hysbyswyd y swyddog bod yr oriau agor hwyr fel bod modd dangos digwyddiadau chwaraeon, nid oedd y safle yn bwriadu bod yn glwb nos ond byddai angen i gerddoriaeth wedi'i recordio/cerddoriaeth fyw gael ei chwarae tan oriau mân y bore.
Oherwydd bod cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio i'w gweld yn nodwedd amlwg yn y cais, argymhellir felly fod yr oriau ar gyfer cerddoriaeth fyw/wedi'i recordio yn cael ei ostwng i rhwng 00:00-01:00, gyda dim ond cerddoriaeth gefndir wedi hynny.

Mae'r cais ar hyn o bryd yn mynd drwy'r broses gynllunio ac mae gan y Gwasanaeth bryderon am allu strwythur yr adeilad i gadw'r sŵn. Mae'r Gwasanaeth wedi gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â sŵn mewn perthynas â'r unedau aer dymheru, sŵn gan gwsmeriaid a'r lefel sŵn a ragwelir yn yr eiddo preswyl cyfagos fel rhan o'r broses gynllunio.

Cyflwynwyd asesiad sŵn gyda'r cais cynllunio (cyfeirir ato yn adran M, is-adran d – atal niwsans cyhoeddus.) Mae'r asesiad wedi argymell gosod dyfais cyfyngu sŵn a'i osod yn unol â'r cyfyngiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Argymhellir ymhellach fod defnyddio dyfais cyfyngu sŵn yn cael ei amodi yn yr Atodlen Weithredu yn unol ag argymhelliad yr adroddiad sŵn os yw'r cais am drwydded eiddo yn llwyddiannus, yn ogystal â'r amodau sŵn a argymhellir gan Iechyd yr Amgylchedd.

**Gweler y ddogfen ynghlwm i weld yr hyn a gyflwynwyd a'r amodau sŵn.**

**3.4 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

3.5 Er bod Heddlu Gogledd Cymru yn cefnogi'r cais, maent wedi mynegi pryderon am ddiogelwch y cyhoedd, ar ôl 4am mae gan yr heddlu lai o adnoddau. Ar ôl ystyried hyn gyda'r cwmni, roeddent wedi awgrymu eu bod yn stopio gwerthu alcohol am 03:30am gan gau am 04:00am.
Hoffai'r awdurdod cyfrifol gael sicrwydd bod yr asesiad risg yn ystyried presenoldeb goruchwyliaeth ddigonol yn yr ardal lle mae gwrthrychau caled, fel peli a ffyn pŵl yn bresennol. Codwyd materion hefyd oedd yn ymwneud â rheoli traffig.

**Gweler y ddogfen ynghlwm am y sylwadau llawn.**

**3.6 Sylwadau yr Adran Gynllunio**

3.7 Er nad yw'r adran gynllunio wedi gwrthwynebu'r cais, nodwyd nad oes gan yr eiddo unrhyw ganiatâd cynllunio yn ei le, ac mae cais wedi ei gyflwyno ond nid oes unrhyw benderfyniad hyd yma.

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn cymhwyso'r oriau terfynu is ar gyfer gwerthu alcohol ar benwythnosau fel a gytunwyd rhwng yr Heddlu a'r ymgeiswyr. Argymhellir ymhellach fod y pryderon a amlinellwyd yn y sylwadau gan y Cyhoedd ac Iechyd yr Amgylchedd yn cael eu hystyried, a bod y mesurau lliniaru sŵn a'r amodau a argymhellwyd yn cael eu cynnwys yn yr Atodlen Weithredu os am gymeradwyo'r cais; yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.